Estyn

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gynradd Cwm Glas

Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2025

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae Ysgol Gynradd Cwm Glas yn darparu amgylchedd cynnes, gofalgar a chynhwysol lle mae disgyblion yn ffynnu'n emosiynol ac yn gymdeithasol. Mae'r perthnasoedd gwaith anogol rhwng staff a disgyblion yn golygu bod disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn gwybod at bwy i droi am gymorth. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn dangos parch at ei gilydd.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gref ac yn rhoi cyfeiriad clir i waith yr ysgol. Rhoddir blaenoriaeth uchel i les disgyblion, ac mae staff yn cynnwys rhieni a'r gymuned leol yn llwyddiannus iawn mewn gweithio i wella deilliannau ar gyfer disgyblion. Mae'r ethos teuluol sy'n cael ei greu yn gryfder yn yr ysgol ac yn cael ei werthfawrogi gan rieni a disgyblion.

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai yn y Cyfleuster Addysgu Arbenigol (CAA), yn gwneud cynnydd cryf o'u mannau cychwyn. Mae staff yn datblygu medrau siarad disgyblion yn dda, ac mae hyn yn ffocws i'w gwaith pan fydd disgyblion yn dechrau yn yr ysgol. At ei gilydd, mae'r addysgu'n rhoi ystyriaeth dda i anghenion disgyblion ac mae athrawon yn rhoi adborth effeithiol i ddisgyblion i fynd â'u dysgu ymlaen. Mae'r ymagwedd ysgol gyfan at addysgu mathemateg yn datblygu hyder a medrau disgyblion, yn enwedig mewn gwaith rhif, yn llwyddiannus.

Mae gwaith i ddatblygu cwricwlwm yr ysgol yn symud ymlaen yn dda, ac mae athrawon wedi ystyried yn ofalus sut i sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd addas yn datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd. Megis dechrau datblygu y mae'r gwaith i sicrhau dilyniant mewn meysydd dysgu eraill. At ei gilydd, mae cwricwlwm yr ysgol yn darparu cyfleoedd dysgu cyfoethog a chreadigol sy'n cymell disgyblion i ddysgu. Mae estyniadau i'r cwricwlwm, fel caffi a banc yr ysgol, yn darparu profiadau dysgu ystyrlon a bywyd go iawn sy'n datblygu dealltwriaeth disgyblion o faterion ariannol yn dda.

Mae darpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gryf. Mae arweinwyr a staff yn cynllunio ac yn cydlynu cymorth i ddiwallu anghenion lles a dysgu unigol disgyblion yn effeithiol.

Mae gan y corff llywodraethol wybodaeth dda am waith yr ysgol. Mae llywodraethwyr yn darparu her effeithiol, yn rheoli cyllid yr ysgol yn effeithiol ac yn dwyn arweinwyr i gyfrif yn briodol.

# Argymhellion a beth sy’n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud un argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Datblygu cwricwlwm yr ysgol ymhellach i sicrhau dilyniant ar draws pob maes dysgu

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o’r ysgol, dilynwch y ddolen hon i’r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 04/08/2025